

Eitem: 03(a)

Teitl: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023/24

Gweithredu	I gymeradwyo a mabwysiadu.
Amseru	Ar frys
Argymhelliad	Argymhellir bod y Bwrdd yn nodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2023/24 ac yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r ddogfennaeth fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.
Risg	Mae potensial ar gyfer risg enw da os nad yw Llais yn cyflawni ei rwymedigaethau a'i ofynion statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon wedi'u harchwilio o fewn yr amserlenni gofynnol.
Cyllid	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ran cymeradwyo'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad a'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl am Llais.
Amcan Cynllun Corfforaethol /Amcan Rhaglen	<p>Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â threfniadau llywodraethiant ariannol a chorfforaethol Llais.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.</p> <p>Mae trefniadau llywodraethant ariannol a chorfforaethol da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithredu a chyflawni pob agwedd ar waith Llais yn llwyddiannus ac felly, cyflawni pob amcan allweddol.</p>
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y maes hwn. Fodd bynnag, ymdrinnir ag agweddau allweddol ar y meysydd hyn yng nghynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft.
Cyfathrebu	<p>Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn effeithio ar:</p> <p>Mewnol: Ein Pobl <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol: ein cwsmeriaid / partneriaid / rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/></p>

	Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>
Cymeradwyaeth	Mae'r papur hwn wedi'i glirio gan Alyson Thomas, Prif Weithredwraig
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol	Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi trafod dogfennaeth a phrosesau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer cwblhau a chymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, mewn cyfarfod arbennig ar 20 Awst 2024 a chyfarfod arbennig pellach ar 27 Tachwedd 2024 lle penderfynwyd argymhell i'r Bwrdd fabwysiadu'r ddogfennau.
Awdur/ Cyflwyno	Alun Lloyd, Cynghorydd Ariannol, Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol a Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd
Dyddiad	5 Rhagfyr 2024
Cefndir	
<p>Fel corff cyhoeddus statudol, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (LIGC), mae'n ofynnol i Llais gyhoeddi Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol.</p> <p>Er bod Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 yn gyfyngedig, gan gwmpasu'r cyfnod sefydlu yn natblygiad Llais, mae'r Cyfrifon Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol mwy cynhwysfawr ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu gweithgareddau, perfformiad a llywodraethiant llawn Llais, fel sefydliad sefydledig a gweithredol.</p>	
Manylion	
<p>Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ar ran y Bwrdd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r Cyfrifon Blynyddol, Adroddiad Blynyddol a gofynion archwilio • Trafod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft cychwynnol 2023/24 fel y'i cyflwynwyd mewn cyfarfod ar 19 Mehefin 2024 • Ystyried y ddogfennaeth ddatblygu ymhellach mewn cyfarfod ar 20 Awst 2024, lle cymeradwyodd y pwyllgor gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023/24 i fodloni'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer deddfwriaeth o 31 Awst 2024. Gwnaed y cyflwyniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru • Sylwadau gweithredol ar y ddogfennaeth rhwng cyfarfodydd 	

- Cynnal cyfarfod pellach ar 27 Tachwedd 2024, lle derbyniwyd yr adborth o'r archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru a chytunodd y pwyllgor i argymhell i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Llais a Chyfrifon ar gyfer 2023/2024.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu yn cynnwys:

- Adroddiad Perfformiad
- Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys:
 - Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol, gan gynnwys:
 - Adroddiad y Cyfarwyddwyr
 - Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
 - Datganiad Llywodraethiant
 - Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol
- Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd.
- Datganiadau Ariannol
 - Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
 - Datganiad Sefyllfa Ariannol (y fantolen)
 - Datganiad o Lifau Arian
 - Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwr
 - Nodiadau i'r cyfrifon

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd drosolwg hefyd ac ystyriodd Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260), a gyflwynir ar wahân i'r Bwrdd. Sylwch fod y Llythyr Cynrychiolaeth o Llais i Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon.

Mae rheolwyr Llais a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ddiolchgar i Archwilio Cymru am y gefnogaeth, trefniadau gweithio agos a'r ddeialog drwy gydol archwiliad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol 2023/24.

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn
- Cadarnhau nodi cynnwys Adroddiad Archwilio Cyfrifon (gan gynnwys ISA 260) gan Archwilio Cymru a ystyriwyd yn gynharach yn yr agenda
- Nodi argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2023/24 a chymeradwyo llofnodi'r ddogfennaeth gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Y llofnod gofynnol fydd

- Prif Weithredwr i lofnodi Trosolwg Perfformiad (tudalen 10)
- Prif Weithredwr i lofnodi Dadansoddiad Perfformiad (tudalen 49)
- Prif Weithredwr i lofnodi Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu (tudalen 51)
- Prif Weithredwr i lofnodi'r Datganiad Llywodraethu (tudalen 69)
- Prif Weithredwr i lofnodi'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff (tudalen 90)
- Prif Weithredwr i lofnodi Datganiad Sefyllfa Ariannol (tudalen 99)
- Prif Weithredwr a Chadeirydd i lofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.